**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**
**Teleffon: Botwnnog 730357**

9fed Medi, 2020.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 14eg Medi, 2020** am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch tua chwarter awr cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

**R H A G L E N**

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn ffurflenni.

4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 10fed AWST, 2020**

Copi'n amgaeëdig. "A"

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

(a) Cais C20/0666/32/LL – codi adeilad cynhurchu wyau maes gan gynnwys seiloau a gwaith cysylltiedig yng Nghrugern, Sarn Mellteyrn.
(b) Cais C20/0698/32/DT – creu mynedfa gerbydol newydd i'r briffordd yn Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

(a) Adroddiad Y Cynghorydd Gareth Williams ynglyn a gor-yrru ym Motwnnog, a'r angen am arwyddion 'dim loriau.'
(b) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

7. **MATERION IECHYD**

A oes unrhyw fater angen ei anfon ymlaen i Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru?

8. **HYFFORDDIANT GAN UN LLAIS CYMRU**

Gwahoddiad i hyfforddiant ar wahanol bynciau – copi'n amgaeedig gyda rhaglen mis Awst. Gan y dadgysylltwyd ni o'r cyfarfod 'zoom' ni thrafodwyd hwn.

Hefyd yng nghlwm 'roedd e-bost gan Un Llais Cymru yn nodi'r gôst.

9. **CANLLAWIAU I GYNGHORAU AR cYNNAL CYFARFODYDD YN GORFFOROL**

I ystyried canllawiau Un Llais Cymru.
Copi'n amgaeedig. "B"

10. **O DDRWS I DDRWS**

I ystyried cais gan 'O Ddrws i Ddrws.
Copi'n amgaeedig. "C"
Mae'r fantolen ariannol i law ac os yr ydych angen gweld copi rhowch wybod i mi.

11. **AWDURDOD I DALU**


I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad a ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

| | |
|---|---|
| Y Clarc | £372.55 |
| HMRC | £ 93.20 |

12. **LLYWODRAETHWYR YSGOL PONT-Y-GOF, BOTWNNOG**

Adroddiad y Cynghorydd Carys H. Evans, y cynrychiolydd presennol.

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR**
**Y CYNGHORWYR**

| | | |
|---|---|---|
| David Brunelli (post) | Carys H. Evans (e-bost) | Elin Hughes (e-bost) |
| Gwenan Griffith (e-bost) | Dylan Parry Jones (post) | Ifor Owen (post) |
| Glyn Roberts (e-bost) | Michael Strain (e-bost) | Carys E. Williams (post) |
| Glenys Williams (post) | Siôn Williams (e-bost) | |